# Certolizumab pegol i drin arthritis gwynegol os na cheir ymateb digonol i atalydd TNF alffa

26 Hydref 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir cymryd certolizuman pegol (Cimzia), gyda chyffur a elwir yn methotrexate. Mae'n driniaeth bosibl i oedolion sydd ag arthritis gwynegol gweithredol difrifol ond dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

- nid yw eu clefyd wedi ymateb i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARDau) gan gynnwys o leiaf 1 alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF), neu nid yw'r person yn gallu eu cael, ac
- nid ydynt yn gallu cael rituximab.

Gellir defnyddio certolizumab pegol ar ei ben ei hun os na all pobl gymryd methotrexate.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth ar ôl 6 mis os nad yw arthritis gwynegol yr unigolyn yn ymateb yn ddigon da.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Os oes gennych arthritis gwynegol gweithredol difrifol a bod eich meddyg yn credu mai certolizumab pegol yw’r driniaeth gywir i chi, dylech allu ei chael ar y GIG.

Dylai certolizumab pegol fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd certolizumab pegol nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

**Y cyflwr a'r driniaeth**

Achosir arthritis gwynegol gan system imiwnolegol y corff yn ymosod ar gymalau iach. Mae'r cymalau dan sylw yn boenus, wedi chwyddo ac yn anystwyth, a thros amser cânt eu niweidio ac nid ydynt yn gweithio'n iawn mwyach.

Mae triniaeth ar gyfer arthritis gwynegol yn cynnwys grŵp o gyffuriau a elwir yn gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARDau). Mae atalyddion alffa TNF yn fath o DMARD. Mae'r cyffuriau hyn yn gwella symptomau ac yn arafu niwed i'r cymalau.

Mae certolizumab pegol yn atalydd alffa TNF. Mae'n atal llid yn y corff er mwyn lleihau'r chwyddo yn y cymalau ac atal niwed pellach.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- National Rheumatoid Arthritis Society, 0800 298 7650
- Arthritis and Musculoskeletal Alliance, 0203 856 1978
- Versus Arthritis, 0800 520 0520
- Arthritis Action, 0203 781 7120

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2191-1